

Comisiynydd Plant Cymru

Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2020-2024

Y Cyd-destun - Deddf Cydraddoldeb a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Daeth Deddf Cydraddoldeb 2010 i rym ar 1 Hydref 2010, gan ddarparu fframwaith cyfreithiol a fydd yn diogelu hawliau unigolion ac yn hybu cyfle cyfartal i bawb.

Un o brif nodweddion y Ddeddf yw **dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus** (y 'ddyletswydd gyffredinol'), a ddisodlodd ddyletswyddau ar wahân yng nghyswllt cydraddoldeb hil, anabledd a rhywedd, a daeth hyn i rym ar 5 Ebrill 2011. Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut gallan nhw gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu gwreiddio yn nyluniad polisïau a chyflwyno gwasanaethau, a'u bod yn cael eu hadolygu'n barhaus.

Mae gofyn bod cyrff cyhoeddus yn rhoi sylw dyledus i'r angen am wneud y canlynol:

- Dileu camwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf;
- Hybu cyfle cyfartal ymhlith pobl sy'n rhannu nodwedd berthnasol a amddiffynnir a'r rhai sydd ddim; a
- Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a amddiffynnir a'r rhai sydd ddim.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn cwmpasu'r nodweddion canlynol a amddiffynnir:

- Oedran;
- Ailbennu rhywedd;
- Rhyw;
- Anabledd;
- Beichiogrwydd a mamolaeth;
- Cyfeiriadedd rhywiol;
- Hil – gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedl; a
- Chrefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred.

Mae'n berthnasol i briodas a phartneriaeth sifil, ond dim ond o ran y gofyniad i ddileu camwahaniaethu mewn cyflogaeth.

Weithiau defnyddir yr ymadrodd 'grŵp a amddiffynnir' i gyfeirio at bobl sy'n rhannu nodwedd a amddiffynnir.

Dyletswyddau Penodol yng Nghymru

Diben cyffredinol y dyletswyddau penodol yng Nghymru yw helpu cyrff rhestredig i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol a chynorthwyo tryloywder. Mae'r dyletswyddau penodol yn berthnasol i gyrff rhestredig yng Nghymru, ond nid i awdurdodau cyhoeddus heb eu datganoli sy'n gweithredu yng Nghymru. Mae'r dyletswyddau penodol yn cyflwyno'r camau y mae'n rhaid i gyrff rhestredig yng Nghymru eu cymryd er mwyn dangos eu bod yn bodloni'r ddyletswydd gyffredinol.

Cyflwynir y dyletswyddau penodol yng Nghymru yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol)(Cymru) 2011. Daeth y dyletswyddau penodol yng Nghymru i rym ar 6 Ebrill 2011, ac maen nhw'n cwmpasu:

- Amcanion Cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Ymgysylltu a dyletswydd cydraddoldeb
- Asesu effaith a dyletswydd cydraddoldeb
- Gwybodaeth am gydraddoldeb a dyletswydd cydraddoldeb
- Gwybodaeth am Gyflogaeth, Gwahaniaethau Cyflog a Hyfforddiant Staff a dyletswydd cydraddoldeb
- Caffael a dyletswydd cydraddoldeb

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn dod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol)(Rheoliadau) Cymru 2011, ac mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn amlinellu sut bydd hi'n cyflawni'r dyletswyddau hynny.

Rôl Comisiynydd Plant Cymru

Sefydliad hawliau plant annibynnol a sefydlwyd yn 2001 yw Comisiynydd Plant Cymru (CPC). Prif nod y Comisiynydd yw diogelu a hybu hawliau a lles plant.

Mae Comisiynydd Plant Cymru am weld Cymru sy'n wlad lle caiff plant a phobl ifanc eu parchu, eu gwerthfawrogi, a lle maen nhw'n cael gwrandawriad a chefnogaeth i fyw bywydau diogel a hapus. Ei gweledigaeth yw Cymru lle mae gan bob plentyn a pherson ifanc gyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod.

Mae'r Comisiynydd yn hybu hawliau plant a phobl ifanc o dan CCUHP.

Mae tîm o bobl yn gweithio gyda Sally Holland, y Comisiynydd Plant, i'w helpu i wneud y canlynol

- Cefnogi plant a phobl ifanc i ddysgu am hawliau plant;
- Gwrando ar blant a phobl ifanc i ddarganfod beth sy'n bwysig iddyn nhw;
- Cynghori plant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdanynt os byddan nhw'n teimlo eu bod nhw'n methu troi at neb arall gyda'u problemau;
- Dylanwadu ar y llywodraeth a sefydliadau eraill sy'n dweud eu bod nhw'n mynd i wneud gwahaniaeth i fywydau plant, gan sicrhau eu bod yn cadw eu haddewidion i blant a phobl ifanc; a
- Chodi llais dros blant a phobl ifanc yn genedlaethol ar faterion pwysig – bod yn bencampwr plant yng Nghymru.

Mae Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol sy'n berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc 18 oed a than hynny. Hwn yw'r offeryn hawliau dynol rhyngwladol a gadarnhawyd gan y nifer ehangaf o wledydd, ac mae'n rhoi ystod eang o hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol i blant a phobl ifanc, y mae disgwyl i Bartion Gwladol sydd wedi ymrwymo i'r Confensiwn eu gweithredu. Y confensiwn hwn yw'r sylfaen ar gyfer ein holl waith.

Pedair egwyddor gyffredinol CCUHP yw:

- peidio â chamwahaniaethu;
- lles pennaf y plentyn;
- hawl i fywyd, i oroesi ac i ddatblygu; a

- pharch at farn y plentyn.

Gweledigaeth Comisiynydd Plant Cymru

Penododd Prif Weinidog Cymru yr Athro Sally Holland yn Gomisiynydd Plant ym mis Ebrill 2015. Yn ystod ei chyfnod o wasanaeth mae'r Comisiynydd wedi cyhoeddi dau gynllun strategol, yn amlinellu'r gwaith y bydd hi'n ei wneud i wella cyfleoedd bywyd plant yng Nghymru. Mae'r cynllun wedi'i ddatblygu ar sail tystiolaeth ymchwil gyfredol ynghylch mynediad plant i'w hawliau yng Nghymru a'n hymgyngoriad ninnau â phlant ac oedolion yng Nghymru. Er mwyn helpu i lunio cynllun terfynol Sally Holland fel Comisiynydd (2019-2022), buon ni'n ymgynghori'n helaeth. Rhannwyd y gwaith ymgynghori yn dri chyfnod:

Cyfnod 1 (Ebr - Medi 2018): Cynhaliwyd cyfarfodydd a gwaith ymgynghori wyneb yn wyneb gan y Comisiynydd a'r tîm gyda sefydliadau addysg a iechyd, oedd yn cynnwys byrddau iechyd, grwpiau cleifion, arbenigwyr ar iechyd plant, sefydliadau academaidd, grwpiau cymunedol, grwpiau Llysgenhadon y Comisiynydd, cyrff anllywodraethol a phlant a phobl ifanc 3+ oed oedd yn mynychu Eisteddfod yr Urdd. Roedd y cyfnod hwn hefyd yn cynnwys arolwg cenedlaethol ar wahân gyda 6392 o ddisgyblion a 391 o athrawon o'n cynlluniau Llysgenhadon, yn mesur i ba raddau mae plant a phobl ifanc yng Nghymru yn profi pum egwyddor dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn eu haddysg.

Cyfnod 2 (Hydref 2018): Buon ni'n ystyried yr wybodaeth genedlaethol sydd eisoes wedi'i chasglu am blant a phobl ifanc, gan gynnwys data gweinyddol arferol yn ogystal â data meintiol ac ansoddol y mae plant a phobl ifanc yn ei gyflwyno eu hunan mewn arolygon ac astudiaethau ymchwil, a chyhoeddwyd y canlyniadau mewn adolygiad cynhwysfawr o'r dystiolaeth.

Cyfnod 3 (Hyd - Tach 2018): Arolygon Beth Nawr? | What Now? i blant, pobl ifanc, rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol, yn ceisio'n barn ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw, sut maen nhw'n meddwl dylai rhai ohonyn nhw dderbyn sylw, a beth ddylai fod yn ffocws i waith y Comisiynydd yn ystod y tair blynedd nesaf, yn eu barn nhw. Bu dros 10,000 o blant a phobl ifanc 3-18 oed yn cymryd rhan yng Nghyfnod 3, gan gynnwys 847 o blant 2-7 oed a fu'n cymryd rhan mewn gweithdai oed-briodol.

Yr ymgynghoriad penodol hwn a'n gwaith ymgysylltu, ochr yn ochr â chanfyddiadau ac argymhellion allweddol perthnasol o "Ydy Cymru'n decach?" 2018 sydd wedi dylanwadu ar bennu ein hamcanion cydraddoldeb ar gyfer 2020 – 2024.

Mae hefyd yn rhan o waith arferol Comisiynydd Plant Cymru a'i staff i ymgysylltu ag ystod eang o blant a phobl ifanc er mwyn helpu i lywio blaenoriaethau gwaith y Comisiynydd yn barhaus, a sicrhau bod y Comisiynydd yn cael ei gweld yn cynrychioli'r ystod ehangaf posibl o safbwyntiau pobl ifanc. Rydyn ni'n mabwysiadu gwahanol lefelau o ymgysylltiad â phlant a phobl ifanc, yn dibynnu ar natur y gwaith sy'n cael ei wneud. Rydyn ni'n ymgysylltu â phlant a phobl ifanc trwy ein rhaglenni llysgenhadon cymunedol ac ysgol, trwy waith prosiectau sy'n gysylltiedig â'n cynllun gwaith blynyddol, neu ar ddarnau penodol o waith fel ymatebion ymgynghori i un o bolisïau Llywodraeth Cymru. Rydyn ni hefyd yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc trwy waith cyngori wyneb yn wyneb, mewn cynadleddau a seremonïau gwobrwyo, yn electronig trwy facebook, twitter ac e-bost, neu trwy ohebiaeth ysgrifenedig, dros y ffôn neu drwy decstio.

Amcanion Cydraddoldeb Strategol

Amcan 1 – Mae ein Harweinyddiaeth a'n Llywodraethiant yn sicrhau bod amcanion cydraddoldeb yn cael eu cynnwys yn ein holl brosesau cynllunio

Fel sefydliad hawliau dynol cenedlaethol sefydledig, byddwn ni'n sicrhau bod amcanion cydraddoldeb yn cael eu gwreiddio yn yr holl brosesau cynllunio sefydliadol

- Bydd gwaith y Comisiynydd yn destun craffu a dylanwad gan banel Ymgynghorol o blant a phobl ifanc a phanel Ymgynghorol o oedolion. Bydd aelodau'r Paneli yn cael eu dewis i sicrhau eu bod yn adlewyrchu ystod mor eang â phosib o boblogaeth amrywiol Cymru.
- Chwilio am gyfle i'r Comisiynydd ddod yn atebol i Senedd Ieuenctid Cymru, a etholwyd yn ddemocrataidd.
- Parhau i ddatblygu a mireinio'r broses Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â phob agwedd ar waith y Comisiynydd a'r penderfyniadau a wneir ganddi, ac er mwyn sicrhau bod effaith y mesurau cydraddoldeb a roddir ar waith o ganlyniad i'r asesiadau hyn yn rhan o'r holl werthusiadau o'n gwaith a dderbyniwyd.
- Sicrhau bod yr wybodaeth rydyn ni'n ei phrosesu yn cael ei rheoli'n gyfrifol.
- Gwreiddio ystyriaeth i amcanion cydraddoldeb a'u monitro yn ein prosesau cynllunio a rheolaeth

Amcan 2 – Cyflwyno gwasanaeth effeithiol, sydd â ffocws ar y cyhoedd, gan sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc a'r cyhoedd yn gyffredinol yn ganolog i sut mae gwasanaethau'n cael eu trefnu a'u cyflwyno

Byddwn ni'n parhau i wella sut mae ein swyddfa'n cyflawni ei gwaith, gan sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc a'r cyhoedd yn gyffredinol yn ganolog i sut mae gwasanaethau yn cael eu trefnu a'u cyflwyno

- Darparu cyfleoedd systematig i hybu hawliau plant ar hyd y flwyddyn, gan gynnwys ymhlith y rhai sydd â nodweddion a amddiffynnir.
- Cynllun gwaith blynyddol i adlewyrchu barn plant a phobl ifanc a darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddylanwadu.
- Mynd i'r afael â materion cydraddoldeb a chamwahaniaethu yn uniongyrchol er mwyn sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod trwy waith prosiect allweddol a gwaith ein tîm Ymchwiliadau a Chyngor.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o hawliau plant a rôl y Comisiynydd, fel bod plant eu hunain yn gallu cael mynediad at wybodaeth sy'n eu galluogi i ddeall ac ymarfer eu hawliau, gan gynnwys herio camwahaniaethu.
- Ceisio sicrhau bod ein holl waith gyda phlant a phobl ifanc yn gynhwysol ac yn hygyrch. Byddwn ni'n gweithio gyda'r llywodraeth ar gyfleoedd i estyn hawliau plant o dan y gyfraith, gan gynnwys ymgorffori CCUHP ymhellach i gyfraith gwlad yng Nghymru.
- Sicrhau bod ein cyfathrebu â phlant a phobl ifanc yn hygyrch i ystod mor eang â phosib o blant a phobl ifanc, gan ddefnyddio Plain English, Cymraeg Clir, Widgets, BSL a delweddau sy'n adlewyrchu natur amrywiol Cymru.

Amcan 3 – Datblygu a hyrwyddo adnoddau a gwybodaeth a fydd yn galluogi eraill i ymateb i anghenion plant a phobl ifanc, gan gynnwys rhai sydd â nodweddion a amddiffynnir

Bydd ein swyddfa yn ceisio hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn herio camwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ymhlith y rhai sydd â nodwedd a amddiffynnir. Byddwn ni'n gwneud hyn trwy geisio deall profiadau a barn plant a phobl ifanc sydd â nodweddion a amddiffynnir, datblygu a hybu adnoddau, dealltwriaeth a gwybodaeth. Byddwn ni'n ceisio meithrin perthynas dda rhwng y rhai sydd â nodwedd a amddiffynnir a'r rhai sydd heb hynny.

- Parhau i gyhoeddi adnoddau hygyrch ar gyfer plant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol, fydd yn eu galluogi i ddefnyddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc.
- Dylanwadu ar ddatblygiad dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant ar draws holl gyrff cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio ein fframwaith "Y Ffordd Gywir". Mae'r dull gweithredu hwn yn gweld cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu fel elfennau canolog o waith cyrff cyhoeddus.
- Gwella gallu plant a phobl ifanc i fanteisio ar eu hawliau a sylweddoli pan na fyddant yn derbyn eu hawliau, trwy ein rhaglenni hyfforddi i lysgenhadon.
- Cynnal gwaith prosiectau â ffocws, ar sail barn plant a phobl ifanc, a fydd yn ceisio dylanwadu er mwyn creu dull gweithredu seiliedig ar hawliau wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc, gan herio camwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth. Bydd ffocws arbennig ar iechyd meddwl, anabledd a thlodi.
- Deall profiadau a barn plant a phobl ifanc sydd â nodweddion a amddiffynnir. Bydd hynny'n cynnwys ffocws ar rywedd a chyfeiriadedd rhywiol fel rhan o'n rhaglen ysgolion Llysgenhadon.
- Annog a galluogi plant a phobl ifanc i ymgysylltu â dinasyddiaeth a'r broses ddemocrataidd.

Amcan 4 – Cyflogaeth, Tâl a Hyfforddiant – Creu gweithle cefnogol, cynhwysol a grymusol trwy hybu arferion neilltuol wrth reoli pobl a pherfformiad, gan ddefnyddio tystiolaeth gysylltiedig â chydraddoldeb

Fel cyflogwr, byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n creu gweithle cefnogol, cynhwysol a grymusol trwy hybu arferion sy'n esiampl wych wrth reoli pobl a pherfformiad, gan ddefnyddio tystiolaeth gysylltiedig â chydraddoldeb

- Mynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo cyfleoedd i weithio yn Swyddfa'r Comisiynydd Plant ymhlith y rhai sydd â nodweddion a amddiffynnir.
- Nodi, dadansoddi ac os bydd angen rhoi mesurau ar waith i oresgyn unrhyw fwch/wahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau yn swyddfa Comisiynydd Plant Cymru a chyhoeddi'r wybodaeth honno.
- Sicrhau bod adeilad swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn hygyrch i bawb.
- Darparu ystod o gyfleoedd dysgu a datblygu yn flynyddol a fydd yn cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth staff ynghylch gweithio gydag amrywiaeth.
- Darparu ystod o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth i blant a phobl ifanc a fydd yn helpu i'w paratoi ar gyfer cyflogaeth amser llawn.
- Diweddarau ein polisiau a'n harferion cyflogaeth er mwyn sicrhau eu bod yn darparu amgylchedd gwaith sy'n parchu ac yn mynd ati i hybu ac ymateb i anghenion y rhai sydd â nodwedd a amddiffynnir, gan gynnwys adolygu'r Polisiau Mabwysiadu a Mamolaeth perthnasol.

- Casglu a chyhoeddi gwybodaeth gynhwysfawr am y gweithlu, yn unol â disgwyliadau'r Ddeddf Cydraddoldeb a'r EHRC neu ddarparu esboniad ynghylch pam nad yw hyn yn briodol.
- Gweithredu'n unol â pholisi Llywodraeth Cymru ar gyflogaeth Foesegol mewn cadwyni cyflenwi.
- Sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan o'r monitro ar gyfer pob contract.